



Cymorth i Fuddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth EAFRD (TAIS) 2017-2020

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD)

Nodyn canllaw

1. Rhagarweiniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau ynghylch ymholi a gwneud cais am gyllid ar gyfer prosiectau seilwaith twristiaeth ar raddfa fach. Cronfa *gyfalaf* yw hon a chaiff cyllid ei gynnig fel rhan o Raglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru, ac mae'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau isod.

Mae'n agored i sefydliadau cyhoeddus, cyrff yn y trydydd sector a chyrrff dielw (cyhyd ag y bo'r rhain yn gyrrff corfforedig) ond nid yw'n agored i fusnesau BaCh yn y sector preifat. I fod yn gymwys, rhaid i'r prosiect gael ei roi ar waith mewn ward cymwys (dilynwch y ddolen i weld y rhain yn Atodiad A):

<http://gov.wales/docs/drah/publications/180404-rural-community-development-fund-guidance-notes-cy.pdf>

Caiff y gronfa ei gweithredu drwy gyfrwng rhaglen alwadau flynyddol a rhaid cwblhau'r gwariant llawn erbyn mis Rhagfyr 2020. Os byddwch yn cyflwyno mwy nag un ymholiad, rydym yn argymhell eich bod yn cynnwys dim ond yr achosion rydych am roi blaenoriaeth iddynt. Dyma'r dyddiadau'n gysylltiedig â mynegi diddordeb yn 2018:

Lansio'r alwad am ymholiadau TAIS: 27 Ebrill 2018.

Cau'r alwad am ymholiadau TAIS: 25 Mai 2018 (erbyn 5pm)

2. Diben y gronfa

Diben y gronfa yw datblygu seilwaith twristiaeth hygyrch, ar raddfa fach, mewn cyrchfannau. Yn ddelfrydol, rydym yn chwilio am gynigion creadigol sy'n gwneud gwahaniaeth ac sy'n ychwanegu gwerth at brofiad ymwelwyr, p'un ai fel cynnyrch sy'n newid canfyddiadau'n strategol, neu fel rhan o glwstwr o gynhyrchion sy'n helpu i ddatblygu cyrchfan a hybu twf economaidd.

Nod Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru - Partneriaeth ar gyfer Twf, yw sicrhau cynnydd o 10% mewn enillion twristiaeth yng Nghymru erbyn 2020. Mae'r strategaeth yn

seiliedig ar ddatblygu cynnyrch a chreu profiadau o'r radd flaenaf i roi rhesymau da i bobl ymweld â Chymru.

<http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/tourism/partnership-for-growth-strategy/?lang=cy>

Gellir defnyddio'r gronfa hefyd ar gyfer prosiectau cymwys yn y cynlluniau rheoli cyrchfannau:

<https://businesswales.gov.wales/dmwales/cy/destination-management/wales-destination-management-partnerships>

Y ceisiadau llwyddiannus fydd y rhai sy'n cynnig prosiectau sy'n helpu i ddatblygu ac ychwanegu gwerth at gyrchfannau ymwelwyr.

3. Blaenoriaethau

Dyma flaenoriaethau ehangach y gronfa:

1. Hybu cynlluniau sy'n seiliedig ar gynnyrch o safon, sy'n gallu cryfhau enw da cyrchfan.
2. Datblygu cyrchfannau y bydd pobl yn awyddus i ymweld â nhw a chyrchfannau y byddant yn annog eraill i ymweld â nhw drwy gynnig :
 - profiadau cofiadwy mewn cymunedau lleol;
 - cryfhau enw da Cymru fel cyrchfan sy'n cynnig amrywiaeth eang o brofiadau penodol gan gynnwys profiadau'n ymwneud â threftadaeth a ffydd, cerddoriaeth, y celfyddydau, bwyd, diwylliant cyfoes, llinach a digwyddiadau lleol;
 - creu mwy o gyfleoedd i greu ymdeimlad penodol o le sy'n caniatáu i ymwelwyr fanteisio ar yr agweddau gorau ar ddiwylliant Cymru, ei threftadaeth a'i hiaith;
 - cryfhau enw da Cymru fel cyrchfan cynaliadwy i ymwelwyr;

a:

1. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig;
2. Helpu'r bobl fwyaf difreintiedig yng nghefn gwlad Cymru a'r rhai nad oes fawr o gyfle ganddynt i newid eu hamgylchiadau;
3. Meithrin gallu cymunedau gwledig i wrthsefyll anawsterau, i ymdopi'n well â newidiadau ac addasu iddynt.

Brand Cymru

Pan fo modd, byddwn yn ystyried a yw'r prosiect yn atgyfnerthu Brand Cymru, sef:

- Yn codi statws Cymru.
- Yn synnu ac yn ysbrydoli.
- Yn atgyfnerthu canfyddiadau da.
- Yn gwneud pethau da.
- Yn amlwg yn cynrychioli 'Cymru'.

Cewch ragor o wybodaeth am frand Cymru drwy ddilyn y ddolen hon:
<http://cymruybrand.com/>

Er enghraifft, byddai cynnig sy'n rhagori yn y modd y mae'n defnyddio deunyddiau lleol neu'n tanlinellu cryfderau treftadaeth, gan gynnwys ymdeimlad o le ac sy'n defnyddio'r Gymraeg, yn gydnaws â'r brand.

Enghreifftiau o brosiectau

Rhaid i gynnig cymwys fod yn brosiect cyfalaf ac yn brosiect sy'n hybu twristiaeth. Dyma rai enghreifftiau (nid yw'n rhestr gynhwysfawr):

- Gwellu'r amgylchedd, fel tirlunio caled a meddal, neu gynlluniau i greu parthau i gerddwyr mewn cyrchfannau allweddol i ymwelwyr.
- Gwellu arwyddion, byrddau dehongli a llwybrau dwyieithog/amlieithog gan gynnwys, o dan amgylchiadau eithriadol, canolfannau ymwelwyr os ydynt yn rhan annatod o raglen rheoli cyrchfan.
- Meysydd parcio i geir a bysiau (gan gynnwys hygyrchedd, socedi gwefru ceir EV, gwybodaeth) a gwellu toiledau mewn cyrchfannau allweddol.
- Ei gwneud yn haws cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr, a phrosiectau i wella ansawdd dŵr (ee gwobrau'r Faner Las). Gallai hynny gynnwys llwybrau â chanllaw, heb stepiau, i'r traeth; socedi gwefru sgwteri trydan; cyfleusterau newid (mwy o le a mwy o offer nag a geir mewn toiledau hygyrch safonol); safleoedd toiled i gŵn tywys; toiledau hygyrch, parcio dynodedig sy'n agos at doiledau hygyrch; llwybrau hygyrch (ee synhwyraidd) a llwybrau sy'n osgoi camfeydd.
- Seilwaith ar gyfer digwyddiadau (os yw'n ymwneud â thwristiaeth), a gwaith celf neu gynnyrch 'arbrofol' mewn cyrchfannau allweddol.
- Prosiectau datblygu thema'n ymwneud â Blwyddyn y Môr, Y Flwyddyn Darganfod a Ffordd Cymru. Dilynwch y ddolen i'r Blynnyddoedd Thematig:
<https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/y-blynnyddoedd-thematig;>
<http://www.fforddcymru.cymru/>

4. Cymhwysra

Pwy sy'n gallu gwneud cais?

Gall y canlynol fynegi diddordeb:

- Grwpiau gweithredu lleol (os ydynt yn endidau corfforedig)
- Grwpiau cymunedol lleol (gan gynnwys elusennau, ymddiriedolaethau a chwmnïau cydweithredol).
- Mentrau cymdeithasol.
- Cwmnïau cyfyngedig drwy warant (dielw).
- Cwmnïau budd cymunedol.
- Cwmnïau cydfuddiannol.
- Awdurdodau lleol.
- Cyrff cyhoeddus eraill fel Parciau Cenedlaethol.

Beth y gellir ei gyllido?

Cronfa gyfalaf yw hon. Ni chaiff costau refeniw eu hystyried. Lleiafswm y grant sydd ar gael yw £25,000 ac ni fydd yn fwy na £128,000. Yr uchafswm y gellir ei wario at ei gilydd ar brosiect cymwys yw £160,000, sy'n golygu mai'r lefel ymyrryd yw 80%. Diben y gronfa yw hybu gwaith seilwaith twristiaeth ar raddfa fach, fel yr enghreifftiau a nodwyd (ond nid dim ond yr uchod).

Beth na ellir ei gyllido?

Ni fyddwn yn ystyried cyllido'r canlynol:

- Gwaith trwsio a chynnal a chadw cyffredinol
- Costau refeniw fel marchnata, gorbenion ac amser staff.
- Gweithgarwch economaidd (fel ystafelloedd te).
- Canolfannau Gwybodaeth i Ymwelwyr (TIC).

Ni all ffioedd cymwys fod uwchlaw 12% o'r gwariant cyfalaf cymwys, a rhaid iddo ymwneud â thasg untro benodol i roi'r prosiect ar waith e.e. dylunio, cynllunio, diogelwch ffordd ac adroddiadau ac archwiliadau technegol / arbenigol. Gall y rhain fod ar ffurf gwariant mewnol, ond dim ond os oes tystiolaeth glir o'r taliadau. Mae'r ffioedd nad ydynt yn gymwys yn cynnwys paratoi cais am arian, swyddi rheoli a gweinyddu prosiect cyffredinol, neu drosglwyddo costau mewnol.

Dangosyddion a chynnyrch

Caiff y cymorth ei fesur yn ôl y dangosyddion a ganlyn. Llywodraeth Cymru fydd yn eu coladu, a bydd angen i'r ymgeiswyr gyflwyno adroddiad arnynt:

- Cyfanswm ymyriad a'r arian cyfatebol.
- Nifer y gweithgareddau a gefnogir.
- Nifer yr ymwelwyr sy'n manteisio ar y newidiadau yn y seilwaith.
- Y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Rhaid i'r gwasanaethau a gynigir fod yn newydd a rhaid iddynt gael eu creu neu eu gwella o safbwynt hygyrchedd neu gwmpas y ddarpariaeth. Caiff hyn ei fonitro'n gronnus dros oes y prosiect. Yn achos gwasanaethau a gaiff eu gwella, bydd angen monitro hyn yn ôl llinell sylfaen a sefydlwyd cyn dechrau ar y gwaith.
- Nifer y cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu'r nifer sydd wedi'u gwella, a ddatblygwyd i'w cyflwyno i'r farchnad (cynhyrchion a gwasanaethau) neu i'w defnyddio (prosesau).
- Nifer y mentrau i wella neu ddatblygu atyniadau neu gyfleusterau newydd i ymwelwyr mewn amgylcheddau naturiol a/neu hanesyddol. Nid yw hyn yn cynnwys mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad neu'r arfordir.

5. Mynegi diddordeb a'r broses ymgeisio

Asesu'r prosiect

Mae dau gam i'r broses o asesu prosiectau:

Cam 1: Ar ôl i ffurflen Mynegi Diddordeb yn y Cynllun Cymorth i Fuddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS) ddod i law, caiff ei harchwilio i sicrhau bod y prosiect yn bodloni'r meini prawf cymhwysra. Mae'r ffurflen wedi'i hatodi yma:

<https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/cyllid#guides-tabs--4>

Caiff pob ffurflen Mynegi Diddordeb ei hasesu'n ôl y meini prawf a ganlyn:

- A yw'r corff yn gymwys i wneud cais?
- A gafwyd caniatâd cynllunio neu a yw ar y gweill?
- A fydd y prosiect wedi'i gwblhau ymhen dwy flynedd fan bellaf?
- A yw'r swm dan sylw'n cyd-fynd â chanllawiau'r cynllun?
- A oes modd darparu'r swm dan sylw o fewn rheolau Cymorth Gwladwriaethol a rheolau'r cynllun?
- A yw'r prosiect yn flaenoriaeth strategol?
- A yw'r prosiect yn gydnaws â brand Cymru?

Cam 2: Os bydd y gyllideb yn caniatáu, gwahoddir yr ymholiadau sydd â'r sgôr uchaf i gyflwyno cais. Caiff ceisiadau a dderbyniwyd eu hadolygu gan swyddog achos i ddechrau a'u hasesu a'u sgorio gan banel cymedroli annibynnol, cyn cael eu argymhell ar gyfer ystyriaeth a phenderfyniad Gweinidogol.

- Dim ond ceisiadau ar gyfer prosiectau a gaiff eu rhoi ar waith mewn wardiau cymwys penodol yng Nghymru fydd yn cael eu derbyn. Mae'r wardiau hyn i'w gweld yn Atodiad A yn y nodyn canllaw sydd wedi'i atodi: <http://gov.wales/docs/drah/publications/180404-rural-community-development-fund-guidance-notes-cy.pdf>
- Yr isafswm sydd ar gael yw £25,000. Mewn achosion anghyffredin, os yw'r cynnyrch yn *eithriadol*, neu *os yw'r prosiect yn flaenoriaeth er bod ei werth yn is*, bydd rhywfaint o hyblygrwydd o bosibl a gellir ystyried ceisiadau am lai na £25,000 o gymorth ariannol.
- Yr uchafswm sydd ar gael yw £128,000, a hynny ar gyfer prosiectau sydd â chostau net o £160,000 fan bellaf. Y lefel ymyrryd felly fydd 80% o'r costau cyfalaf cymwys.
- Ni fydd yn rhaid ad-dalu'r cymorth ariannol.

Rhaid i'r dystiolaeth y byddwch yn ei chynnwys i gefnogi'ch achos gyd-fynd â blaenoriaethau neu themâu Croeso Cymru (fel Blwyddyn y Môr, Blwyddyn Darganfod a Ffordd Cymru). Bydd y prosiectau llwyddiannus yn cael eu dewis ar sail cryfder ac ansawdd y gyrchfan ac i ba raddau y mae'r prosiect yn arloesi.

Nid yw'r cyllid yn dibynnu ar greu swyddi'n uniongyrchol a chaiff ei ystyried yn unol â'r penawdau a ganlyn:

- Cydweddiad Strategol
- Ansawdd y Prosiect
- Tystiolaeth o Angen
- Risgiau, Gweithredu a Chyflawni'r Prosiect
- Elfennau i'w cyflawni gan y prosiect (allbynnau a chanlyniadau)
- Costau a Gwerth am Arian y Prosiect

Caiff yr ymgeiswyr wybod am y meini prawf asesu pan gânt y ffurflen gais.

6. Cymeradwyo a phenderfynu

Cewch wybod am y penderfyniad a'r rhesymau drosto. Cronfa ddewisol yw hon ac nid oes unrhyw broses apêl benodedig. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, cewch lythyr yn Cymeradwyo'r Cyllid. Ni chewch ddechrau ar y prosiect na gwneud unrhyw ymrwymiad ffurfiol cyn y penderfyniad neu bydd eich cais yn annilys. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol nac yn atebol am unrhyw gostau y byddwch yn eu hysgwyddo i baratoi'r cais.

7. Y broses hawlio, cyflawni a monitro

Bydd trefniadau'r taliadau wedi'u nodi yn y llythyr yn cynnig cyllid. Os bydd angen trefnu unrhyw gyfnodau hawlio ychwanegol, gallwch wneud cais drwy ysgrifennu at y Tîm Monitro yn esbonio'r rhesymau dros y newid. Bydd penderfyniad y Tîm Monitro'n derfynol. Rhaid i Bennaeth Cyllid (yn achos awdurdodau lleol) gymeradwyo pob cais.

Polisi Llywodraeth Cymru yw talu ar ffurf ôl-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod, fodd bynnag, nad oes gan y rhan fwyaf o gyrff yn y trydydd sector ryw lawer o arian wrth gefn ac nad oes ganddynt yr adnoddau i gwblhau gwaith a chael eu talu wedyn. Mae'n bosibl, felly, darparu cyllid ymlaen llaw ar gyfer gwariant penodol cyhyd ag y bo tystiolaeth bendant bod angen gwneud hynny. Yn achos ymgeiswyr o'r trydydd sector, os bydd angen cyllid ymlaen llaw, dylech nodi hyn yn ystod y cam cyntaf, a chewch ffurflen 'talu ymlaen llaw'. Dylech lenwi hon a'i dychwelyd gyda'r dystiolaeth ofynnol. Caiff y wybodaeth a'r dystiolaeth eu hasesu i benderfynu a allwn roi cyllid i chi ymlaen llaw. Bydd awdurdodau lleol yn cael y grant ar ffurf ôl-daliadau ar sail y costau y byddant wedi'u hysgwyddo.

Bydd amserlen benodol ar gyfer rhoi pob prosiect ar waith, a chaiff hon ei hamlinellu yn y llythyr yn cynnig cyllid. Mae sicrhau arbenigedd rheoli prosiect yn bwysig iawn oherwydd oni chedwir at yr amserlen sydd yn y cynnig, mae'n bosibl y bydd y prosiect yn colli ei arian. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio talu cyrff yn y trydydd sector cyn pen 30 diwrnod ar ôl llenwi ffurflen hawlio ddilys. Gellir cyflwyno ffurflenni'n electronig, a rhaid cynnwys adroddiad cynnydd a thystiolaeth os bydd angen. Os na fydd pob rhan o'r ffurflen wedi'i llenwi neu os bydd wedi'i llenwi'n anghywir, mae'n bosibl y bydd oedi cyn talu.

Monitro ar ôl cwblhau'r broses

Byddwn yn parhau i fonitro'r prosiect am bum mlynedd o leiaf wedi iddo ddod i ben i sicrhau ei fod yn cyflawni'r hyn a gytunwyd, a bydd hynny'n un o amodau'r cynnig.

8. Cymorth Gwladwriaethol

Caiff y grant ei gynnig gan un o swyddogion Llywodraeth Cymru dan awdurdod Gweinidogion Cymru. Caiff y cynnig ei wneud yn unol â Rheoliadau Rhaglen Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 [SI Rhif.3222 (W.327)]. Mae'r grant hwn ar gael o dan y Cynllun uchod a gyflwynir fel rhan o Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 – 2020.

9. Caffael yn yr Undeb Ewropeaidd

Mae Cyfarwydddebau Caffael yr Undeb Ewropeaidd yn berthnasol i gontractau a gaiff eu cyllido'n llawn neu'n rhannol drwy gronfeydd yr UE. Mae'r rheolau caffael llawn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus, endidau yn y trydydd sector a mentrau masnachol yn y

sector preifat sy'n cael cymorth grant gwerth 50% neu ragor o gyfanswm costau'r prosiect ac eithrio TAW.

Yn achos unrhyw variant cyfalaf, rhaid cynnwys y dystiolaeth berthnasol yn ymwneud â chaffael pan fyddwch yn hawlio'r cyllid, nid pan fyddwch yn gwneud cais. Hefyd, mae angen cynnwys dadansoddiad rhesymol o gost y prosiect pan fyddwch yn gwneud cais.

I gael rhagor o fanylion, edrychwch ar y tabl isod ac ewch i: <http://gov.wales/docs/drah/publications/160704-competitive-tendering-and-public-procurement-technical-guidance-notes-cy.pdf>

Dyma grynodeb o'r broses gaffael bresennol:

Amcangyfrif o'r gwerth*	Gofyniad	Cam i'w gymryd
£0 - £4,999	Un dyfynbris ysgrifenedig	Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio cyflenwyr sydd wedi'u cofrestru ar https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/
£5,000 – £24,999	Tri dyfynbris ysgrifenedig	Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio cyflenwyr sydd wedi'u cofrestru ar https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/
£25,000 - £106,046 (Nwyddau a gwasanaethau)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Mae'n bosibl y caiff y gofynion eu cyhoeddi drwy https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ Gellir gofyn am ddyfynbrisiau gan holi'r cyflenwyr yn uniongyrchol
£25,000 - £4,104,393 (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Mae'n bosibl y caiff y gofynion eu cyhoeddi drwy https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ Gellir gofyn am ddyfynbrisiau gan holi'r cyflenwyr yn uniongyrchol
£106,047 ac uwch (Nwyddau a gwasanaethau)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Caiff y gofynion eu cyhoeddi drwy Ewrop drwy gyfrwng https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/
£4,104,394 ac uwch (Gwaith)	Cystadleuaeth lawn ac agored	Caiff y gofynion eu cyhoeddi drwy Ewrop drwy gyfrwng https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/

* Sylwch nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys TAW.

10. Y Gymraeg

Dylai ymgeiswyr geisio cyngor ynghylch gofynion dwyieithrwydd eu prosiectau ar ddechrau'r broses a dylent sicrhau bod pob agwedd wedi'i chostio a'i chynnwys yn eu cynigion. Bydd y gofynion o ran y Gymraeg yn cael eu nodi yn y ddogfen yn cynnig cyllid a gallant gynnwys (fel y bo'n briodol):

- Arwyddion a deunyddiau addysgol, rhyngweithiol a deongliadol dwyieithog.
- Argraffu deunyddiau marchnata dwyieithog, oni bai bod y prosiect yn targedu cynulleidfia'r tu allan i Gymru yn unig.
- Gwefan dwyieithog.

- Cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, oni bai bod y prosiect yn targedu cynulleidfa tu allan i Gymru yn unig.
- Cyfleoedd i hyfforddi a datblygu pobl mewn perthynas â'r Gymraeg.
- Hysbysebu swyddi'n ddwyieithog.
- Cynllun Gweithredu a Pholisi ar gyfer y Gymraeg.

11. Cyhoeddusrwydd

Bydd angen i chi gydnabod y cymorth ariannol mewn unrhyw gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata a gyhoeddir gan nodi mai arian gan Raglen Datblygu Gwledig - Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 -2020 ydyw, a bod hwnnw'n cael ei noddi gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, a Llywodraeth Cymru. Rhaid cyhoeddi'r gydnabyddiaeth ar ffurf a gymeradwyir gennym ni a rhaid iddi gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru, a gaiff eu cynnwys yn y llythyr yn cynnig cyllid i chi.

12. Datganiad Preifatrwydd Diogelu Data

Llywodraeth Cymru yw'r Rheolwr Data ar gyfer unrhyw wybodaeth a gawn gennych. Mae manylion llawn ein polisi preifatrwydd ar gael yma: <https://businesswales.gov.wales/cy/preifatrwydd> A fydddech cystal â chadarnhau yn yr adrannau perthnasol ar y ffurflenni eich bod yn fodlon bwrw ymlaen ar y sail hon er mwyn i chi barhau i gael cymorth a chynghor gan Lywodraeth Cymru.

13. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i wireddu'r weledigaeth i Gymru sydd yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos pa fath o Gymru yr ydym am ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir fod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i gyflawni'r nodau i gyd, nid dim ond un neu ddau. Bydd yn bwysig at ddibenion asesu'ch cais, eich bod yn cyfeirio at y modd y bydd eich prosiect yn cyflawni'r nodau hyn, a'ch bod yn esbonio hynny. Mae'r nodau llesiant i'w gweld yma: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

14. Rhagor o wybodaeth

Swyddogion Achos Rhanbarthol

Enw	Lleoliad	Cyfeiriad e-bost	Rhif ffôn
Phil Griffiths	Y Gogledd/ Canolbarth	phil.griffiths@gov.wales	0300 062 5397
Theresa Cartlidge	Y De-ddwyrain / Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a'r Canolbarth	theresa.cartlidge@gov.wales	0300 061 5710
John Woodward	De Cymru / Canolbarth	john.woodward@gov.wales	0300 062 2413